



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

29 EBRILL 2019

DIWEDDARIAD – RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL CYMRU

ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. G. HOPKINS

AWDUR: Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg am ymateb y Cyngor i'r [Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#) a gafodd ei chyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2018.

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Cydnabod y penderfyniad a gafodd ei wneud gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg ynghylch y rhestr;
- 2.2 Nodi sefyllfa bresennol y Cyngor o ran rhestr arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg o Enwau Lleoedd Safonol.

3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 3.1 Mae angen i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg fod yn ymwybodol o sefyllfa bresennol y Cyngor mewn perthynas â defnyddio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf, 2018.
- 3.2 Er bod Comisiynydd y Gymraeg yn anelu at sicrhau cysondeb a chywirdeb o ran orgraff ledled Cymru, ac mae'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru wedi'i llunio i'r perwyl hwn, mae'n bwysig pwysleisio mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol yn y pendraw am bennu pa ffurfiau ar enwau lleoedd maen nhw'n eu defnyddio yn eu hardal ddaearyddol.

4. CEFNIDIR

- 4.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am roi cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru i unigolion a sefydliadau. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu ffurfiau safonol ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus, arwyddion, mapiau a pheiriannau chwilio ar-lein.
- 4.2 Ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ym mis Gorffennaf gan dynnu sylw at y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, a gafodd ei chyhoeddi ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y Comisiynydd wedi nodi y byddai'n dymuno i'r Cyngor fabwysiadu'r rhestr yma.
- 4.3 Cyfarfu Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 10 Hydref, 2018 lle bu'n ystyried yr argymhellion a gafodd eu gwneud gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â mabwysiadu enwau lleoedd sy'n berthnasol i Rondda Cynon Taf.
- 4.4 Yn dilyn trafodaeth faith ar y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, penderfynodd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, gyda chytundeb y Cabinet, y byddai Cadeirydd y Grŵp Llywio yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn sefydlu sail resymegol y rhestr, cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad gyda chymunedau lleol.
- 4.5 Yn y cyfamser, ymwelodd swyddogion o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg â'r Cyngor. Rhoddodd hyn gyfle i'n swyddogion esbonio sefyllfa'r Cyngor bryd hynny ynghyd â chymhlethdodau unrhyw newidiadau i enwau lleoedd a'u heffaith ar weinyddu busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

5. Y SEFYLLFA BRESENNOL

- 5.1 Mewn ymateb i lythyr gan Gadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, gofynnodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i'r Cyngor ohirio unrhyw broses ymgynghori oherwydd bod angen ailystyried yr argymhellion sy wedi'u hamlinellu yn y rhestr mewn perthynas â RhCT.
- 5.2 Gan fod gan y Cyngor berthynas waith dda gyda Chomisiynydd y Gymraeg, mae Swyddogion y Cyngor wedi darparu rhestr ddwyieithog o'r enwau lleoedd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd wrth weinyddu busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Fel yr Aelod priodol o'r Cabinet a Chadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, mae Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins wedi ysgrifennu at swyddfa'r Comisiynydd ers hynny i ofyn i'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol sydd wedi'i chyhoeddi gael ei newid yn unol â hynny.
- 5.3 Petai Comisiynydd y Gymraeg yn dymuno gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r rhestr ddwyieithog o enwau lleoedd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gweinyddu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, byddai gofyn i ohebiaeth bellach gael ei darparu i'r Grŵp Llywio mewn perthynas â'r rhesymeg cyn i unrhyw ymgynghori ddigwydd gyda chymunedau lleol.

6. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

6.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

7. YMGYNGHORIAD

7.1 Derbyniodd Aelodau Lleol gadarnhad ysgrifenedig o unrhyw newidiadau arfaethedig cychwynnol a chawson nhw eu gwahodd i ymateb er mwyn i'w sylwadau gael eu hystyried.

7.2 Ni fydd ymgynghori pellach yn mynd rhagddo ar y pwynt hwn.

8. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

8.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma.

9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

9.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rheoleiddio'r maes gwaith yma.

9.2 Felly, pan fydd y Cyngor yn llunio polisi newydd, rhaid rhoi sylw dyledus i sicrhau y byddai unrhyw benderfyniad yn cynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

10. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

10.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ogystal â Strategaethau mewn perthynas â'r Gymraeg a gafodd eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

10.2 Mae'r pwnc sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad yma yn arbennig o berthnasol i nod rhif chwech o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) – sef Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Ei nod yw sicrhau bod gyda'r Gymraeg statws cyfartal i'r Saesneg yng Nghymru. Ei nod hefyd yw gwarchod treftadaeth Cymru trwy sicrhau bod enwau lleoedd Cymru yn cael eu cadw.

11. CASGLIAD

11.1 Cyfarfu Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 10 Hydref, 2018 i drafod y cyngor a oedd wedi'i roi i Rondda Cynon Taf (ynghyd ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru) gan Gomisiynydd y Gymraeg i fabwysiadu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru.

- 11.2 Cafodd adroddiad pellach ei gyflwyno i'r Cabinet a oedd yn gofyn am ganiatâd i ofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan Gomisiynydd y Gymraeg i gael gwybod beth yw sail resymegol y rhestr cyn i unrhyw ymgynghoriad gael ei gynnal gyda chymunedau lleol.
- 11.3 Yn dilyn gohebiaeth â swyddfa'r Comisiynydd a oedd yn gofyn i'r Cyngor oedi cyn dechrau unrhyw ymgynghoriad, ymatebodd Cadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg gan gytuno na fyddai'n ddoeth bwrw ymlaen ag unrhyw ymgynghoriad ar sail y rhestr sydd wedi'i chyhoeddi ar y pwynt hwn. Gofynnodd i restr ddiwygiedig a gafodd ei chyflwyno gan y Cyngor gael ei chyhoeddi yn ei lle.